


# Newyddion

Newyddion y CE 48 - Hydref 2014

## Cynnwys


- Rydym ni wedi symud i GOV.UK
- Ydych chi wedi ystyried y risg o gael rhwymedigaethau cyfredol net?
- Ydych chi wedi cofnodi digwyddiadau difrifol eich elusen?
- Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i ffurflen flynyddol 2015?
- Oes gennych chi drefn ar eich gwasanaethau bancio?
- Cymdeithas y Cadeiryddion yn lansio canllaw newydd
- Pa wersi allwch chi eu dysgu o'n gwaith achos diweddar?
- Ydy'ch ymddiriedolwyr i gyd yn atebol?
- Cofiwch ddefnyddio'r ffurflen datganiad yr ymddiriedolwyr ddiwygiedig
- Sut ydych chi'n dathlu Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014?


Yn y gorffennol roedd Newyddion y Comisiwn Elusennau yn cael ei anfon at y cyfeiriadau e-bost a restrir ar ein cofnodion fel y 'cyswllt elusen' ac unrhyw unigolion eraill oedd wedi'u cynnwys ar y rhestr bostio. O hyn ymlaen, mae'r cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i bob ymddiriedolwr y mae gennym ni gyfeiriad e-bost ar eu cyfer.

Fel ymddiriedolwr, mae'n bwysig rhoi gwybodaeth gyson i chi am ganllawiau a gwybodaeth reoleiddio newydd i'ch helpu i redeg eich elusen yn effeithiol. Rydym yn eich annog chi i ychwanegu cyfeiriad e-bost pob un o'ch ymddiriedolwyr at gofnod eich elusen, drwy ddefnyddio'r ffurflen hon. Ni fydd ymddiriedolwyr yn cael post sothach ac ni fydd cyfeiriadau e-bost unigolion yn cael eu cyhoeddi.

## Rydym ni wedi symud i GOV.UK

Fel llawer o adrannau'r llywodraeth, symudodd ein canllawiau a gwasanaethau ar-lein i GOV.UK ym mis Medi. Os ydych chi'n dilyn dolen i'n hen safle, cewch eich ailgyfeirio i'r tudalen GOV.UK gyfatebol. Fe ddewch o hyd i'r holl ganllawiau ar gyfer elusennau drwy ddefnyddio'r opsiwn chwilio neu drwy bori trwy'r pynciau yn Sefydlu a rhedeg elusen. Mae cynnwys yn cael ei ychwanegu trwy'r amser ac mae'r safle yn cael ei fireinio yn unol â'ch adborth - hoffem ni glywed eich barn chi.

## Ydych chi wedi ystyried y risg o gael rhwymedigaethau cyfredol net?

Yn ddiweddar cyhoeddwyd adolygiad i elusennau gyda chyfrifon oedd yn dangos rhwymedigaethau cyfredol net - dyledion cyfredol sy'n fwy na'r cronfeydd sydd ar gael i'w talu. Roedd bron hanner yr elusennau heb drafod y mater yn eu hadroddiadau blynyddol, sy'n golygu bod ymddiriedolwyr heb ddangos i'w darllenwyr sut y maen nhw'n rheoli'r risgiau. Roedd y rhan fwyaf o'r elusennau yn cyllido eu rhwymedigaethau naill ai trwy incwm gohiriedig - taliadau a dderbyniwyd cyn i'r gwasanaethau gael eu darparu - neu drwy fenthyciadau banc a gorddrafftiau.

Roedd llawer o'r elusennau yn yr adolygiad yn dweud bod gweithredu gyda rhwymedigaethau cyfredol net yn gynaliadwy, ond roedd 1 ym mhob 10 yn wynebu anawsterau ariannol difrifol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio eich adroddiad blynyddol a chyfrifon fel cyfle i roi sicrwydd i gyllidwyr, cefnogwyr a buddiolwyr bod yr elusen â rheolaeth gadarn ar y sefyllfa.

Gallwch chi weld ein hadolygiadau hefyd ar ddiffygion cynlluniau pensiwn a gwaddolion parhaol.

## Ydych chi wedi cofnodi digwyddiadau difrifol eich elusen?

Mae ein rhybudd diweddar yn atgoffa elusennau ein bod ni dal yn gweld gormod o achosion lle mae ymddiriedolwyr heb roi gwybod i ni am ddigwyddiadau difrifol, gan roi rhai elusennau mewn perygl os oes angen cymorth ar ymddiriedolwyr i ddelio â nhw.

Y mathau mwyaf cyffredin o ddigwyddiadau a gofnodwyd yw twyll, lladrad a phroblemau diogelu wedi'u cadarnhau. Os nad yw ymddiriedolwyr yn rhoi gwybod am ddigwyddiad difrifol, gall y Comisiwn benderfynu bod hwn yn achos o gamreoli a chymryd camau rheoleiddio. Mae modd lleddfu'r niwed posibl i enw da'r elusen os yw'r ymddiriedolwyr yn gallu dangos eu bod nhw wedi gweithredu'n gyfrifol wrth ddelio â'r broblem.

**Cofiwch:** mae'n rhaid i elusennau sy'n ffeilio cyfrifon (y rhai sydd ag incwm o dros £25,000) gadarnhau hefyd, ar eu Ffurflen Flynyddol, nad yw'r elusen wedi cael unrhyw ddigwyddiadau difrifol y dylen nhw fod wedi dwyn at ein sylw, ond ni wnaethpwyd hynny.

## Ydych chi'n ymwybodol o'r newidiadau i ffurflen flynyddol 2015?

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ar nifer o gynigion i newid ffurflen flynyddol 2015. Nid ydym am gynyddu'r baich ar elusennau, ond yn hytrach parhau i allu rheoleiddio elusennau'n effeithiol, cynyddu tryloywder ac atebolrwydd ac ymateb i'r archwaeth cyhoeddus cynyddol am wybodaeth. Cafwyd 266 o ymatebion ac mae ein dadansoddiad o'r ymatebion, ynghyd â manylion am y newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'r ffurflen flynyddol ar gyfer 2015, ar gael nawr.

## Oes gennych chi drefn ar eich gwasanaethau bancio?

Yn ddiweddar cafwyd adroddiadau yn y wasg am elusennau sydd wedi cael gwybod am benderfyniad eu banc arbennig nhw i dynnu'n ôl y gwasanaethau y mae'n eu darparu iddynt. Mae'r penderfyniadau hyn yn benderfyniadau masnachol annibynnol sy'n cael eu gwneud gan y banc. Ein gwaith ni yw sicrhau y gall yr elusen gael hyd i ddarparwr arall i ddal ei harian yn ddiogel, y gall yr elusen barhau i weithredu ac nid oes unrhyw risg i'w harian.

Mae'n rhaid i elusennau gael cyfrif banc er mwyn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol. Os yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl, gallai hyn niweidio gallu'r elusen i gyflawni ei gwaith a'i gallu i weithredu'n dryloyw. Gallai hefyd gael effaith niweidiol ar ffydd a hyder cyhoeddus yn yr elusen honno, ac yn gyffredinol.

Gwnewch yn siŵr bod cyfrif banc priodol gan eich elusen chi, lle mae mynediad i'r arian wedi'i gyfyngu, ac mae modd olrhain symudiad arian yn hawdd. Mae hon yn elfen hollbwysig o lywodraethu a rheolaeth ariannol dda. Darllenwch ein canllaw Elusennau: dal, symud a derbyn cronfeydd yn ddiogel.

Yn olaf, cofiwch ddiweddaru manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu eich elusen pan fyddwch chi'n cyflwyno eich ffurflen flynyddol.

## Cymdeithas y Cadeiryddion yn lansio canllaw newydd

Mae Cymdeithas y Cadeiryddion yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf drwy gyhoeddi canllaw penodol i gadeiryddion elusennau sydd â rôl hollbwysig ac unigryw i'w chwarae yn eu sefydliadau. Mae Cwmpawd y Cadeirydd - Canllaw i Gadeiryddion Elusennau a Sefydliadau Di-elw yn tynnu sylw at rôl y cadeirydd fel arweinydd. Mae'r canllaw yn nodi pedwar pwynt hanfodol: eglurdeb pwrpas; bwrdd cydlynol; perthnasoedd adeiladol; a gwneud penderfyniadau pwyllog.

Mae Cymdeithas y Cadeiryddion yn ceisio rhoi i gadeiryddion yr wybodaeth ymarferol, sgiliau a chymorth i'w galluogi i gyflawni eu rôl i'r safonau llywodraethu uchaf. I wybod mwy ac i lawrlwytho copi am ddim o'r canllaw, ewch i'r wefan.

Dywedodd William Shawcross, Cadeirydd y Comisiwn Elusennau: "Gall cadeirio elusen fod yn waith anodd, ond mae'n waith hollbwysig a gwerth chweil. Mae'r canllaw newydd hwn gan Gymdeithas y Cadeiryddion yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth a chyngor ymarferol i'r rhai sy'n gwirfoddoli i wneud y rôl bwysig hon."

## Pa wersi allwch chi eu dysgu o'n gwaith achos diweddar?

Pan fydd ymchwiliad i elusen yn dod i ben, cyhoeddwn adroddiad yn rhoi manylion am yr hyn rydym wedi'i ddarganfod a pha gamau rydym wedi'u cymryd. Yn aml iawn mae llawer o wersi y gall ymddiriedolwyr eu dysgu o'r rhain, ac mae'r ymchwiliadau diweddaraf wedi rhoi sylw i wrthdaro buddiannau heb eu rheoli, problemau ynghylch awdurdodi treuliau a methu â ffeilio cyfrifon mewn pryd.

Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar achosion cydymffurfio gweithredol; mae achosion diweddar wedi delio â materion ynghylch diogelu, ymgyrchu a gweithgareddau gwleidyddol a rhoi taliadau heb eu hawdurdodi i ymddiriedolwyr. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n edrych ar yr adroddiadau hyn a'u defnyddio fel offeryn dysgu.

## Ydy'ch ymddiriedolwyr i gyd yn atebol?

Mae elusennau yn cael eu sefydlu am amryw o resymau, ac mae gan sylfaenwyr y cymhelliad a'r weledigaeth sy'n ysgogi datblygiad yr elusen. Fodd bynnag, weithiau bydd sylfaenwyr yn ei chael hi'n anodd i adael sedd yrru 'eu helusen nhw'. Mae hyn i'w ddeall, ond gall fod yn broblem. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu ar y cyd er lles gorau'r elusen a'i buddiolwyr. Ni ddylai un person gael monopoli ar benderfynu beth sydd orau i'r elusen; gall goruchafiaeth o'r fath danseilio dadlau iach, strategaeth a llywodraethu da. Mae gwneud penderfyniadau ar y cyd yn diogelu'r ymddiriedolwyr a'r elusen, oherwydd gall pawb gael ei ddwyn i gyfrif.

Weithiau pan na fydd sylfaenwyr yn gallu goddef colli gafael ar eu 'helusen nhw', maen nhw'n cael swydd fel gweithwyr yr elusen neu ei his-gwmni masnachu, ac yn parhau fel ymddiriedolwyr yr un pryd. Mae cael eich cyflogi gan is-gwmni masnachu yn creu'r un gwrthdaro buddiannau a phroblemau ynghylch budd ymddiriedolwyr ag y mae cael eich cyflogi gan yr elusen ei hun - felly mae'n rhaid i hyn gael ei awdurdodi gan naill ai ddogfen lywodraethol yr elusen, neu gennym ni. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod gwrthdaro buddiannau yn cael ei reoli, a bod penderfyniadau ar y cyd yn cael eu gwneud.

## Cofiwch ddefnyddio'r ffurflen datganiad yr ymddiriedolwyr ddiwygiedig

Ym Mehefin 2014 lansiwyd deunyddiau newydd i helpu pobl i wneud cais i gofrestru elusennau. Maen nhw'n ddefnyddiol i'r rhai sy'n sefydlu elusennau newydd sbon ac ymddiriedolwyr sy'n sefydlu SCE (Sefydliad Corfforedig Elusennol):

- canllawiau hanfodol
- ffurflen gais ar-lein ddiwygiedig
- ffurflen datganiad yr ymddiriedolwyr ddiwygiedig

Mae'r datganiad yn rhan hanfodol o'r cais. Mae'n cadarnhau bod yr ymddiriedolwyr a enwir:

- yn barod ac yn gymwys i weithredu fel ymddiriedolwyr
- yn deall bod dibenion (amcanion) eu sefydliad a'r rheolau sydd wedi'u hamlinellu yn ei dogfen lywodraethol
- wedi darllen ac yn deall ein canllawiau diogelu ac yn ymgymryd ag unrhyw wiriadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith os yw'r sefydliad yn gweithio gyda phlant neu bobl agored i niwed
- wedi darparu gwybodaeth gywir, gyflawn a gwir ynghylch y sefydliad sy'n gwneud cais i gofrestru

**Nid ydym yn derbyn** unrhyw fersiynau blaenorol o'r ffurflen datganiad yr ymddiriedolwyr mwyach, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r ffurflen gyfredol.

## Sut ydych chi'n dathlu Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014?

Mae Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2014 yn cael ei chynnal rhwng 10-16 Tachwedd. Yn ei phumed flwyddyn bellach, mae'r ymgyrch genedlaethol hon yn codi ymwybyddiaeth o swydd yr ymddiriedolwr, yn dathlu'r gwaith gwych y mae ymddiriedolwyr yn ei wneud ac yn annog pobl o bob cefndir i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth. Dyw hi ddim yn rhy hwyr i gymryd rhan - ewch i ddigwyddiad lleol, cymerwch ran mewn sesiwn Holi ac Ateb ar Twitter neu cyfrannwch at ein gwefan! Ewch i wefan Wythnos yr Ymddiriedolwyr a dilynwch @trusteesweek i gael rhagor o wybodaeth.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau i gyd? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar @ChtyCommission**